

Ffrwyth y rhywogaeth *Curcubita pepo* yw courgettes, maros a rhai pwmpenni. Maros heb aeddfedu yw courgettes. Mae courgettes yn gnwd gweddol hawdd eu tyfu allan. Gellir eu cynaeafu o fis Mehefin drwodd hyd yr Hydref yng Nghymru.

SAFLE

Mae angen pridd cyfoethog sy'n dal lleithder ar gyfer courgettes. Osgowch fannau lle ceir gwyntoedd oer a rhew diweddar. Mae'n bosib y bydd angen system ddyfrio, neu ryw ffordd o roi dŵr ychwanegol, er mwyn sicrhau fod y ffrwythau'n llenwi'n llawn mewn hafau sych.

Gall courgettes oddef asidedd yn weddol dda, ond ceisiwch gael lefel pH rhwng 6.0 a 6.5. Nid oes unrhyw argymhellion penodol ar gyfer cyfnodau cylchdro i courgettes. Maen nhw'n perthyn i'r categori cynllunio cylchdroi llysiâu "arall" ac mae o leiaf ddwy flynedd o fwelch rhwng cnydau'n arfer da.

PLANNU

Gellir hau courgettes yn syth yn y cae, gyda phoblogaeth darged o 10,000 planhigyn yr hectar (1m²/planhigyn). Er hynny, mae'n fwy arferol cychwyn y planhigion mewn modiwlau wedi'u gwarchod a'u trawsblannu wedyn unwaith y mae tair gwir ddeilen wedi ffurfio (tua thair wythnos ar ôl hau).

Gellir hau planhigion ar gyfer eu trawsblannu o ganol Ebrill drwodd i ganol Gorffennaf i gynhyrchu cynaeafau fydd yn dilyn ei gilydd. Peidiwch â drilio'n uniongyrchol neu blannu allan nes fod y perygl o rew wedi mynd heibio a cheisiwch blannu yn ystod cyfnod o dywydd tyner, llonydd. Gall gwyntoedd oer yn fuan ar ôl trawsblannu ddal cnwd yn ôl yn ddirifol.

CYLCHDROI CNYDAU

Mae courgettes yn blanhigion llwglyd, sychedig. Maen nhw'n tyfu'n gyflym iawn ac yn dwyn ffrwyth swmpus sy'n cynnwys llawer o ddŵr. Felly mae'n bwysig sicrhau fod digon o faetholion a dŵr ar gael. Os yw'r mynegeion pridd o dan 3 ar gyfer N, P neu K neu, o dan 2 ar gyfer Mg, mae canllawiau Defra yn argymhell rhoi gwrtaith (gweler tabl 1). Dylai'r gwrtaith gael ei roi cyn plannu.

Tabl 1 – Argymhellion gwrtaith ar gyfer courgettes o RB209

	Mynegai SNS, P, K neu Mg						
	0	1	2	3	4	5	6
	kg/ha						
Nitrogen	100	100	100	40	0	0	0
Ffosffad (P ₂ O ₅)	175	125	75	25	0	0	0
Potash (K ₂ O)	250	200	150(2-) 100(2)	0	0	0	0
Magnesiwm (MgO)	150	100	0	0	0	0	0

Ffynhonnell: Defra – Armgymhellion gwrtaith ar gyfer cnydau amaethyddol a garddwriaethol (RB209)

Bydd rhoi digon o wrtaith wedi pydru'n dda yr hydref cyn plannu'n mynd gam mawr o'r ffordd tuag at gynyddu'r dŵr a gedwir yn y pridd a'r maetholion sydd ar gael.

RHEOLAETH

Mae courgettes yn tyfu'n sydyn unwaith y maen nhw wedi sefydlu. Y prif dasgau rheoli yw chwynnu â llaw; chwilio am blâu a chlefydau; edrych am ffrwyth sy'n aeddfedu; a sicrhau fod digon o ddŵr ar gael ar gyfer y planhigion.

PLÂU A CHLEFYDAU

Ar y cyfan nid oes fawr o broblemau plâu a chlefydau gyda courgettes.

Bydd **llyslau** yn effeithio ar y rhan fwyaf o gnydau courgettes i raddau mwy neu lai. Dim ond plâu drwg iawn fydd yn lleihau cynnyrch y cnwd, ond gall llyslau daenu heintiau firaol. Mae rhai lleiddiaid llyslau sydd wedi eu cymeradwyo i'w defnyddio gyda courgettes, ond os penderfynir y byddai defnyddio plaladdwr yn economaidd effeithiol, gofalwch nad yw'r cemegyn a ddefnyddir yn lladd gwenyn (sydd eu hangen i beillio'r cnwd).

Mae **llwydni powdrog** yn effeithio ar lawer o gnydau courgettes. Bydd ffrwythau sydd wedi'u heintio â llwydni powdrog yn llai a'u hansawdd yn salach. Gellir canfod y broblem yn fuan trwy gadw golwg yn rheolaidd a gellir rhoi ffwngleiddiad. Ond arafu cynnydd yr haint a wnaiff y driniaeth; ni fydd yn ei wella'n llwyr.

Firws brychni ciwcymbr a **firws brychni melyn zucchini** yw dau o'r prif heintiau firaol sy'n effeithio ar courgettes: gallai'r ddau ddileu cnwd yn llwyr. Nid oes unrhyw driniaeth i'r clefydau hyn. Unwaith y mae'r firws yn y cnwd gall llyslau ei ledaenu a chyllyll hefyd adeg cynaeafu. Mae mwy a mwy o fathau o courgettes ar gael erbyn hyn sy'n gallu gwrthsefyll y firws hwn (e.e. Supremo, Tarmino, Zucchini, Defender).

CYNHAEAF

Eich marchnad ddylai benderfynu ar faint y courgettes adeg eu cynaeafu. Dylech gael pris uwch am courgettes llai (tua 10cm o ran hyd) a gwerth y cynhaeaf ddylai gael ei facsimeiddio, nid y cynnyrch ei hun.

Cynaeafwch y cnwd gyda chyllell finiog, gan dorri i adael mymryn bach o goesyn ynghlwm wrth y courgette. Byddwch yn ofalus wrth drin y ffrwyth gan fod eu crwyn yn denau ac maen nhw'n hawdd eu niweidio.

Bydd pob planhigyn courgette yn cynhyrchu ffrwyth dros gyfnod o nifer o wythnosau. Os dymunir, ac os oes marchnad, gellir gadael rhai courgettes i aeddfedu'n faros.

Nid yw courgettes yn cadw'n dda a byddant yn dechrau troi'n ddŵr yn fuan ar ôl eu tynnu ac felly ceisiwch gadw'r cyfnod rhwng eu tynnu a'u gwerthu mor fyr â phosib.

Ar ôl cynaeafu gwnewch yn siŵr fod yr holl wastraff planhigion yn cael ei glirio'n llwyr o'r safle rhag i blâu a chlefydau ymgasglu yno.

Ffiniau dangosol ar gyfer cynhyrchu un hectar o courgettes

	Eitem	Swm	£/Uned	£ Cyfanswm
Cynnyrch				
Gwerthiant cnydau	Blychau 5kg	5000	3.50	17,500
			Cyfanswm Cynnyrch	17,500
Costau				
Llafur Achlys'l	Cynaeafu	1600awr	6.00	9,600
Llafur Cytun'b	Plannu	70awr	6.00	420
Costau Gwrtaith	Gwrtaith	1	165.00	165
Costau Eraill	Defnydd Pacio	5000	0.25	1250
Costau Hadau	Planh'n £40 y '000	15	40.00	600
Chwistrellu	Chwynladdwr	1	200.00	200
			Cyfanswm Costau	12,235
Ffin Elw Gros				£5,265

Ffynhonnell: ADAS



Er y gwneir pob ymdrech i sicrhau fod y wybodaeth a roddir yn y daflen hon yn gywir, ni ellir dal CALU yn gyfrifol am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail ei chynnwys. CALU yw'r Ganolfan Ddatblygu ar gyfer garddwriaeth, biomas, cnydau newydd, coedlannau fferm a da byw newydd yng Nghymru. Noddir CALU gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel rhan o Cyswilt Ffermio

www.calu.bangor.ac.uk

CALU – Yn Cefnogi Defnyddio Tir yn Gynaliadwy